# Diwrnod ym Mywyd … Warden Eglwys

Yn Eglwys Sant Gwyddelan, ym mhentref bach Dolwyddelan, mae llawer o'r hyn sy'n digwydd yno'n digwydd yn ddiarwybod i neb. Caiff drysau eu datgloi, mannau eu paratoi, canhwyllau eu cynnau, rotas eu trefnu – yn aml iawn heb unrhyw ffwdan. Am y chwe blynedd diwethaf, bu Sue yn gweithio fel un o Wardeiniaid yr Eglwys yn helpu i sicrhau bod hyn i gyd yn cael ei gyflawni.

Fe gymrodd Sue yr awenau dros y rôl pan nad oedd Warden blaenorol yr Eglwys yn gallu parhau. "Fe wnes i gymryd yr awenau ar y pryd, ac rydw i wedi parhau ers hynny," dywedodd, mewn ffordd sy'n adlewyrchu ei hymagwedd ymarferol, diymhongar at ei gwasanaeth.



I Sue, mae gweithio fel Warden Eglwys yn rôl rydych chi'n ei llywio eich hun. "Mae'n dibynnu arnoch chi yn y bôn," eglurodd. "Oherwydd fy mod i'n brin o amser, mae fy rôl i yn ymwneud â chydlynu'n bennaf – sicrhau fod popeth sydd angen ei gyflawni *yn cael* ei gyflawni, a bod y bobl sy'n helpu yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw."

Yn aml mae hynny'n golygu gofalu am yr adeilad: cloi, glanhau, trefnu popeth ar gyfer addoli, a threfnu rotas ar gyfer gwasanaethau. At hyn, mae gofyn imi gyflawni gwasanaeth llawer llai ymarferol. "Cynnig clust i wrando," dywedodd Sue. "Mae hynny'n rhan o'r gwaith yn ogystal."

Weithiau mae pobl wedi'u synnu o glywed nad yw'r rôl mor frawychus ag mae'n ymddangos. "Nid yw'n anodd," dywedodd yn syml – yn enwedig pan gaiff ei rannu.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn i Sue ydy'r gwyliau. "Addurno'r eglwys gyda gwyrddni – sy'n eco-gyfeillgar bob amser – a bwrw golwg ar bopeth yng ngolau cannwyll," dywedodd. "Mae'n edrych yn arbennig. Hudolus, a dweud y gwir."

Wrth gwrs, mae yna gyfrifoldebau sydd ddim yn amlwg. Rhai yn fwy heriol na'i gilydd. "Deall sut mae'r gwres yn gweithio," Dywedodd Sue gan chwerthin – tystiolaeth bod gan bob gweinidogaeth ei dirgelion.

Mae rhai adegau yn aros yn ei chof mwy nag eraill. "Priodasau," dywedodd heb oedi. "Maen nhw bob amser yn fendigedig."

Yn wir mae gofyn imi fod yn drefnus er mwyn cydbwyso'r rôl gyda gweddill fy mywyd – hynny a chymorth gan bobl eraill wrth gwrs. "Mae gen i dîm arbennig a chymwynasgar dros ben sy'n cyflawni'r rhan fwyaf o'r tasgau angenrheidiol," dywedodd. "Llawer o waith a wna llawer o ddwylo heb os."